# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Mawrth, 28 Mawrth 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd John Griffith (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Alun Mummery, Peter Rogers, Dafydd Thomas<br><br>Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Rheolwr Archwilio Mewnol (SP)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Richard Owain Jones, Mr Mike Halstead (Pennaeth Archwilio Mewnol), Mr Ian Howse (Deloittes) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid), Mr Gwilym Bury (Arweinydd Archwilio Perfformiad - Swyddfa Archwilio Cymru), Ms Clare Edge (Rheolwr Archwilio Ariannol - Deloittes) |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaed datganiadau o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu gan Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen.

**3 COFNODION CYFARFOD 9 CHWEFROR, 2017**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2017 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi o'r cofnodion -

Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol wrth y Pwyllgor fod adroddiad a wnaed gan Mr Ivan Butler, Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ddinbych yn dilyn ei asesiad o Wasanaeth Archwilio Mewnol Ynys Môn wedi dod i law heddiw ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

**4 CYNLLUN STRATEGOL ARCHWILIO MEWNOL 2017/18 - 2019/20 A CHYNLLUN BLYNYDDOL 2017/18**

Cyflwynwyd i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor, adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol yn ymgorffori'r Cynllun Archwilio Strategol am y cyfnod 2017/18 i 2019/20 a'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017/18, a hynny mewn cydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a gynhyrchwyd gan CIPFA a chyrff eraill ac a ddaeth i rym ar 1 Ebrill, 2013.

Adroddodd y Rheolwr Archwilio Mewnol fel a ganlyn -

• Bod y Strategaeth Archwilio Mewnol yn Atodiad A yn ddatganiad lefel uchel o sut y darperir ac y cyflawnir y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac fe'i cefnogir gan Gynllun Blynyddol manwl fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad.
• Pwrpas y Strategaeth yw sefydlu dull sy'n golygu y gellir rheoli Gwasanaeth Archwilio Mewnol CSYM mewn ffordd a fydd yn hwyluso'r amcanion a ddisgrifir ym mharagraff 1.1.2 yr adroddiad. Cefnogir y Strategaeth a'r Cynllun Blynyddol gan Atodiadau B i E sy'n manylu ar y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017/18, Cynllun Strategol 3 blynedd ar gyfer y cyfnod 2017 i 2020, dadansoddiad o adnoddau Archwilio Mewnol, ynghyd â'r targedau perfformiad ar gyfer 2017/18.
• Er mwyn nodi'r meysydd y mae angen i'r gwasanaeth archwilio mewnol roi sylw iddynt, mae angen deall y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. O'r herwydd, cynhaliwyd asesiad o anghenion archwilio ar gyfer 2017/18 trwy ddefnyddio'r prosesau a nodir ym mharagraff 1.2.2 yr adroddiad.
• 'Roedd y dogfennau eraill a lywiodd ddatblygiad y cynllun yn cynnwys, ymysg rhai eraill, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2015/16; Archwiliad Deloittes o Ddatganiadau Cyfrifyddu a'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol (Cynllun Gwella) ar gyfer 2016/17.
• Mae dull gweithredu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn seiliedig ar risg. Defnyddir Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor i yrru Cynlluniau Strategol a Gweithredol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a defnyddir adnoddau'r gwasanaeth i roi sicrwydd ynghylch y risgiau mwyaf i'r Cyngor lle bo modd gwneud hynny a lle bo'n briodol. Adroddid ar sicrwydd wedyn yn erbyn risgiau y mae Rheolwyr ac Aelodau'r Cyngor yn gyfarwydd â nhw oherwydd eu gwybodaeth am risgiau corfforaethol.
• Mae adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Risg ac effeithiolrwydd y camau i liniaru risgiau uchaf y Cyngor wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2017/18.
• Cynhyrchir y Cynllun Gweithredu Blynyddol i ddarparu rhaglen waith ar gyfer yr Adain Archwilio Mewnol am y flwyddyn. Adolygir yr Asesiad o Anghenion Archwilio a gofynnir am fewnbwn yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth er mwyn nodi unrhyw risgiau sydd heb eu cynnwys ar hyn o bryd. Defnyddir yr asesiad diwygiedig o anghenion archwilio i gyfeirio adnoddau Archwilio Mewnol i'r agweddau hynny yr asesir eu bod yn peri'r risg fwyaf o ran cyflawni'r amcanion.
• Darperir y Gwasanaeth Archwilio Mewnol gan dîm o 6 o swyddogion mewnol fel yr amlinellwyd yn Atodiad D.
• Mae'r gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar ffyrdd o wneud y mwyaf o adnoddau archwilio a gwella perfformiad tra'n darparu gwasanaeth o ansawdd a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau proffesiynol. Cyflawnir hyn drwy brosesau sicrhau ansawdd cadarn a thrwy osod amcanion yn y Cynllun Gwasanaeth Blynyddol. Mae'r cynnydd a wneir o ran cyflawni'r amcanion hynny yn cael ei fonitro drwy adolygiadau chwarterol o berfformiad gwasanaethau ac adroddir ar eu perfformiad i'r Pwyllgor hwn ar sail chwarterol. Nodir targedau perfformiad ar gyfer 2017/18 yn Atodiad E i'r adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth y pwyntiau canlynol -

• Er ei fod yn fodlon bod y Cynllun Archwilio Mewnol Strategol ar gyfer 2017/18 i 2019/20 yn cynnwys y meysydd cywir o ran natur a maint y risgiau sy'n wynebu'r Cyngor, a bod y risgiau hynny wedi cael eu nodi a'u gwerthuso'n briodol, nododd y Pwyllgor nad yw'n cynnwys cyfeiriad at raglen arbedion y Cyngor. Er ei fod yn gynhwysfawr o ran y sylw a roddir ynddo i feysydd gwasanaeth unigol, nododd y Pwyllgor ymhellach nad oedd y Cynllun yn darparu modd i'r Pwyllgor gael sicrwydd bod y Cyngor yn gyffredinol yn cyflawni ei gynlluniau arbedion neu fod cynlluniau wedi eu gwneud i baratoi ar gyfer effeithiau methiant i gyflawni arbedion ac i'w lliniaru. Nid yw'r Pwyllgor yn gallu cael ymdeimlad 'chwaith o sut mae'r Cyngor yn ei gyfanrwydd yn darparu gwerth am arian. Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol ei bod yn nodi'r pwynt a wnaed ac y byddai'n ei gymryd i ystyriaeth wrth lunio Cynllun Strategol ar gyfer Archwilio Mewnol yn y dyfodol.
• Er bod y lefel o sicrwydd yn gyffredinol foddhaol, nododd y Pwyllgor fod meysydd a gafodd eu cynnwys i'w hadolygu fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol Strategol yn Atodiad C yn adlewyrchu lefel Sicrwydd Cyfyngedig; gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y cynnydd a wnaed o ran gwella'r meysydd hyn a'r broses ar gyfer delio â hwy. Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol fod y lefel sicrwydd sy'n deillio o bob archwiliad yn cael ei hystyried a'i bwydo i mewn i'r broses gynllunio wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol. Mae'r holl adolygiadau archwilio sy'n arwain at farn Sicrwydd Cyfyngedig yn cael eu dilyn i fyny cyn pen chwe mis i'r archwiliad gwreiddiol ac adroddir ar y canlyniad i'r Pwyllgor.
• Nododd y Pwyllgor y targedau perfformiad yn Atodiad E; gofynnodd am eglurhad ar y cynnydd a wnaed o ran gallu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i gyrraedd y targedau ar ddiwedd y

flwyddyn. Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol fod 72.73% o'r archwiliadau a gynlluniwyd wedi'u cwblhau hyd yma ac y cynhaliwyd 49 o archwiliadau.

**Penderfynwyd -**

- **Cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017/18**
- **Cymeradwyo targedau perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2017/18.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH**

**5 ARCHWILIO ALLANOL: CYNLLUNIO ARBEDION - CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar drefniadau Cynlluniau Arbedion y Cyngor ynghyd â'r ymateb gan Reolwyr i'r argymhellion a wneir ynddo.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y trefniadau Cynllunio Arbedion yn ganlyniad i adolygiad pellach o drefniadau cynllunio ariannol y Cyngor a gynhaliwyd ym mis Medi, 2016. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn mhob un o'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac mae'n dilyn adolygiad cynharach a wnaed o wydnwch ariannol yr awdurdodau lleol ac yr adroddwyd arno ar lefel yr awdurdodau unigol ac ar lefel genedlaethol ar ffurf crynodeb cenedlaethol a gyhoeddwyd yn Awst 2016. Cyfeiriodd y Swyddog at sgôp yr adolygiad o'r Cynlluniau Arbedion a dywedodd fod yr adroddiad yn dod i'r casgliad "er bod gan y Cyngor fframwaith cynllunio ariannol sy'n gwella, y ceir cynlluniau arbedion sydd heb ddatblygu digon a'i bod yn bosibl na fyddant yn cefnogi cydnerthedd ariannol yn llawn yn y dyfodol." Mae'r adroddiad hefyd yn nodi rhai newidiadau cadarnhaol yn y sefyllfa ers 2015/16 ac yn nodi hefyd fod y Cyngor " wedi cydnabod bod angen newid ei ddull gweithredu strategol mewn perthynas â chynllunio ariannol ac adolygu ei ddull gweithredu mewn perthynas â ffioedd a thaliadau." Mae'r adroddiad wedi gwneud pum cynnig ar gyfer gwella; manylir ar y rhain yn Atodiad 2 ynghyd â'r ymateb gan Reolwyr a'r dyddiad cwblhau ar gyfer y camau arfaethedig.

Dywedodd Mr Gwilym Bury o Swyddfa Archwilio Cymru fod yr adroddiad yn un cadarnhaol ar gyfer y Cyngor a'i fod yn adlewyrchu'r ffaith bod y Cyngor wedi parhau i gryfhau ei drefniadau ariannol. Gellir gwella'r broses o ran sut y cwblheir yr asesiadau o effaith y cynigion arbedion ar faterion cydraddoldeb. Er bod yr asesiadau hyn yn cael eu gwneud nid oeddent oll wedi eu cynnal pan gytunwyd ar y cynigion ar gyfer arbedion. Byddai'n cynorthwyo Aelodau Etholedig i wneud penderfyniadau gwybodus ar y cynigion arbedion pe bai asesiad wedi ei wneud ymlaen llaw o effaith pob cynnig ar gydraddoldeb. Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod hyn yn cael sylw fel rhan o'r adolygiad o broses gosod cyllideb 2017/18.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth y pwyntiau canlynol –

- Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd bod Rheolwyr yn hyderus eu bod yn gallu datblygu cynlluniau arbedion sy'n gadarn, yn gywir ac yn gyraeddadwy, gan wella gwydnwch y Cyngor i wrthsefyll pwysau ariannol yn y dyfodol. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod strategaeth y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf wedi gweithio i dynhau'r gyllideb a chael gwared ar y slac ynddi, a hynny i'r fath raddau nad yw'r dull hwn o weithredu yn ymarferol nac yn ddigonol erbyn hyn. Er bod lle o hyd i wella prosesau, mae'r ymagwedd tymor hir, o reidrwydd, yn golygu gorfod ailystyried pa wasanaethau y gellir eu darparu, gan gadw mewn cof y gwasanaethau y mae'n rhaid i'r Cyngor eu darparu yn ôl y gyfraith a'r rheini nad oes raid eu darparu ac sy'n wasanaethau dewisol, ynghyd â'r ffordd o ddarparu gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o wariant y Cyngor ar Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phriffyrdd sydd oll yn wasanaethau statudol; felly, mae'n anodd gweld sut y gall y Cyngor barhau i weithredu'n effeithiol ac yn ymarferol mewn cyd-destun o gyllidebau sy'n gostwng heb iddo drawsnewid sut y darperir gwasanaethau er mwyn lleihau costau. Mae'r broses hon wedi dechrau o fewn y Cyngor ac mae'n parhau.

Cytunodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid â'r sylwadau a wnaed ac ychwanegodd fod y Cyngor, yn y blynyddoedd diwethaf, wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn ei drefniadau cynllunio ariannol a chyllidebol. Mae'r ffordd y cyllidir y cynghorau ac amseriad cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar gyfer y setliad i lywodraeth leol yn gwneud cynllunio'r gyllideb yn anodd. Nid yw cynllunio'r gyllideb ac

arbedion o flwyddyn i flwyddyn bellach yn cwrdd â'r angen; rhaid i'r Cyngor edrych i'r tymor hir a'r allwedd i hyn yw trawsnewid gwasanaethau a'r ffordd y cânt eu darparu.

• Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod balansau cyffredinol o 5% yn parhau i fod yn ddigonol ac yn ymarferol o ran trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor a pharhad y rhaglen llymder. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yr ystyrir fel rheol bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol o adnoddau i'w cadw wrth gefn. Ar gyfer y Cyngor hwn mae hynny'n cyfateb i £6m. Fodd bynnag, mae angen datrys rhai ystyriaethau cyn i'r sefyllfa derfynol gyda'r cronfeydd wrth gefn ddod yn glir, gan gynnwys Tâl Cyfartal a ph'un a fydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo cyfarwyddeb gyfalafu ar gyfer tâl cyfartal a fyddai'n caniatáu i'r Awdurdod gyfalafu'r costau hynny. Oni fyddai modd eu cyfalafu, byddai'n rhaid cwrdd â chostau'r hawliadau tâl cyfartal sy'n weddill o'r balansau cyffredinol. Y llynedd, rhyddhawyd £1m o'r balansau cyffredinol i wella prosesau busnes y Cyngor er mwyn cynhyrchu rhagor o arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol; er bod defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer diben o'r fath yn dderbyniol, ni fyddai'n cynghori defnyddio cronfeydd wrth gefn i leihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor.

• Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn bleidiol i gydweithredu a gweithio rhanbarthol, yn arbennig ar gyfer y gwasanaethau statudol mawr, yn debygol o effeithio ar gynlluniau arbedion awdurdod unigol pan ddisgwylir i'r awdurdod hwnnw alinio ei wasanaethau â gwasanaethau hyd at bump o awdurdodau eraill a allai fod â gwaelodlin wahanol a dull gwahanol o weithredu.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 nad oedd y Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru ar Ddiwygio Llywodraeth Leol yn gwneud gweithio rhanbarthol yn orfodol ond, serch hynny, mae'n cynnig bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu cyfrifoldebau os byddai gwneud hynny o fudd i'r gwasanaeth neu'n gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth ac yn lleihau costau. Yr hyn sydd heb gael sylw yw cost y trefniadau llywodraethu a gweinyddu ar gyfer gweithio rhanbarthol. Os rhennir adnoddau ac os sefydlir cyd-bwyllgorau mae'n rhaid iddynt fod yn atebol ac mae goblygiadau cost i'r trefniadau hynny. Mae hwn yn asesiad y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud cyn ymrwymo i drefniadau gweithio rhanbarthol a chydweithredol.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn canfyddiadau adroddiad yr Archwiliwr a nodi ei gasgliadau, a chydnabod bod y Cyngor yn parhau i adolygu a mireinio ei drefniadau cynllunio ariannol.**
- **Derbyn yr ymateb gan Reolwyr a chytuno i'w gyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH**

**6 ARCHWILIO ALLANOL : CYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT 2017 - CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, Gynllun Archwilio drafft 2017 Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.

Adroddodd Ms Clare Edge, Rheolwr Archwilio Ariannol ar y broses archwilio mewn perthynas ag archwilio cyfrifon 2016/17 a chyfeiriodd at sut y byddai'r broses yn cael ei gweithredu; y risgiau archwilio ariannol a'r ymateb archwilio ynghyd â'r lefel perthnasedd a gynlluniwyd a'r amserlen ar gyfer adrodd. Dywedodd y Swyddog fod y Cynllun hefyd yn cynnwys rhaglen 2017/18 ar gyfer gwaith archwilio perfformiad.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y sefyllfa mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol. Nododd y Pwyllgor bod yr archwiliad mewnol o'r maes Diogelu Corfforaethol wedi arwain at farn Sicrwydd Cyfyngedig a bod adroddiad diweddar a wnaed gan AGGCC yn dilyn arolygiad o'r Gwasanaethau Plant yng Nghyngor Sir Ynys Môn hefyd wedi tynnu sylw at nifer o ddiffygion ym mherfformiad ac arferion y Cyngor. O ystyried bod y rhain yn feysydd lle mae'r lefel risg yn uchel, ac o gofio'r angen i'r Pwyllgor gael sicrwydd bod y risgiau hynny'n cael eu rheoli'n briodol, gofynnodd am eglurhad ar ble yn y sbectrwm o gyfrifoldebau archwilio mewnol ac allanol mae'r ffocws ar gyfer dilyn i fyny gwaith yn y meysydd hyn, a sut y byddai'n cael sylw drwy brosesau archwilio.

Hysbyswyd y Pwyllgor y bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gwneud gwaith dilyn-i-fyny ar yr archwiliad Sicrwydd Cyfyngedig o'r maes Diogelu Corfforaethol ac yr adroddir ar ganlyniad y gwaith hwnnw i'r Pwyllgor. Gall y Pwyllgor gymryd sicrwydd o'r ffaith y bydd argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol yn cael eu gweithredu, ac oni fyddai hynny'n digwydd, gall ddal y gwasanaethau i gyfrif. Bydd AGGCC yn goruchwylio gweithrediad y Cynllun Gwella mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed ganddi yn yr adroddiad ar y Gwasanaethau Plant.

Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio Mewnol fod Blaenraglen Waith y Pwyllgor yn dangos y cynlluniwyd i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol roi diweddariad i'r Pwyllgor ar yr archwiliad o'r maes Diogelu Corfforaethol yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

**Penderfynwyd derbyn y Cynllun Archwilio a nodi ei gynnwys.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH.**

**7 BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd y Flaenraglen Waith ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith ac yng ngoleuni'r drafodaeth uchod, ystyriodd a ddylai'r rhaglen gynnwys adroddiad AGGCC ar yr Arolygiad o'r Gwasanaethau Plant. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol eisoes wedi ystyried adroddiad AGGCC ac y sefydlir is-banel o'r Pwyllgor hwnnw i fonitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella cysylltiedig. Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio Mewnol yr ymgynghorwyd gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol er mwyn sicrhau bod yr ymateb gan Reolwyr yn briodol.

Er bod y Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn fwy priodol efallai i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod yn bennaf gyfrifol am fonitro'r mater hwn oherwydd ei fod yn ymwneud â darparu gwasanaeth, gofynnodd serch hynny, oherwydd y risgiau cysylltiedig, am ddiweddariad ar gyfer y cyfarfod ym mis Mehefin fel y gall fodloni ei hun y cymerir camau Rheolaeth a bod cynnydd yn cael ei wneud.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r Flaenraglen Waith yn amodol ar gynnwys diweddariad ar y sefyllfa o ran ymateb i adroddiad arolygu AGGCC ar y Gwasanaethau Plant ar gyfer cyfarfod y pwyllgor ym mis Mehefin.**

**CAM GWEITHREDU PELLACH: Rheolwr Archwilio Mewnol i ddiweddaru'r Flaenraglen Waith yn unol â hynny.**

**8 PENODI AELODAU LLEYG**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn nodi trefniadau arfaethedig ar gyfer penodi Aelodau Lleyg ar gyfer y Pwyllgor.

Ar ôl datgan diddordeb sy'n rhagfarnu yn y mater hwn, gadawodd Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a'r penderfyniad yn ei gylch.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ar yr agweddau canlynol ar y broses benodi -

- Y meini prawf cymhwysedd fel y nodir yng nghanllawiau statudol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a restrir ym mharagraff 2.1 o'r adroddiad
- Meini prawf cymhwyso ychwanegol arfaethedig fel y rhestrir nhw ym mharagraff 2.2 yr adroddiad
- Nifer yr Aelodau Lleyg a benodir. Argymhellir bod y Pwyllgor yn cadw dau Aelod Lleyg.
- Y disgrifiad swydd a'r fanyleb person arfaethedig
- Y broses recriwtio a'r amserlen arfaethedig fel y nodir ym mharagraff 5 yr adroddiad.

Er bod y Pwyllgor yn cytuno â'r broses recriwtio yn gyffredinol, mynegodd rywfaint o amheuaeth ynglŷn â natur a maint y meini prawf cymhwyso oherwydd ei fod o'r farn y gallent gyfyngu ar nifer yr

ymgeiswyr addas sy’n ymgeisio i fod yn Aelodau Lleyg o’r Pwyllgor. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 mai’r meini prawf cymhwyso a restrir ym mharagraff 2.1 yw'r rheini a nodir yn y Mesur yn ôl Adran Gyfreithiol yr Awdurdod. Fodd bynnag, cadarnhaodd y byddai'n adrodd yn ôl i'r Adran Gyfreithiol ar amheuon y Pwyllgor mewn perthynas â’r elfen hon o'r broses recriwtio.

**Penderfynwyd -**

- **Cymeradwyo'r meini prawf cymhwyster ychwanegol fel y nodir nhw ym mharagraff 2.2 yr adroddiad**
- **Cadarnhau y parheir i gael dau aelod lleyg ar y pwyllgor.**
- **Cymeradwyo'r disgrifiad swydd a’r fanyleb person drafft fel yn Atodiad 1.**
- **Cadarnhau’r broses recriwtio a'r amserlen arfaethedig fel y nodir ym mharagraff 5 yr adroddiad.**

**CAM GWEITHREDU PELLACH: Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 i gadarnhau gyda'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a oes unrhyw hyblygrwydd o ran gweithredu’r meini prawf cymhwyso.**

**Cynghorydd R.Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**